***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 710 (Cy. 167)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Mehefin 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 28(8) a 120(1) o Ddeddf Addysg 2005(**1**) a pharagraff 6(b) o Atodlen 4 iddi, ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006

**2.** Yn rheoliad 8 o Reoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006(**2**), yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) trefnu i'r cyfarfod gael ei gynnal heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail diwrnod gwaith yn dilyn cychwyn yr arolygiad;".

(**1**) 2005 p. 18. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2006/1714 (Cy. 176), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101), O.S. 2010/1436 (Cy. 127), O.S. 2014/1212 (Cy. 128), O.S. 2016/135 (Cy. 65) ac O.S. 2016/211 (Cy. 84).

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

27 Mehefin 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Addysg 2005 ("Deddf 2005") yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer arolygu ysgolion. Mae Deddf 2005 yn gadael i lawer o'r manylion gael eu rhagnodi mewn Rheoliadau. Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 ("Rheoliadau 2006") yn nodi llawer o'r manylion hynny.

Mae paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priodol (a ddiffinnir yn adran 43 o Ddeddf 2005) ar gyfer yr ysgol gynnal cyfarfod rhwng yr arolygydd sy'n arwain yr arolygiad a rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol. Mae rheoliad 8 o Reoliadau 2006 yn rhagnodi manylion y trefniadau ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Yn benodol mae rheoliad 8(a) yn darparu bod rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal cyn yr amser y mae'r arolygiad i fod i gychwyn. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 8(a) fel bod rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnal heb fod yn hwyrach na diwedd yr ail diwrnod gwaith yn dilyn cychwyn yr arolygiad (rheoliad 2(a)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.